CYMDEITHAS
LLANNERCH-Y-MEDD
COMMUNITY COUNCIL

**03.04.25**
**6:30 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*
## *Cyfarfod Hybrid - ZOOM*
## *A Stafell Gyfarfod Stesion*
## *COFNODION*

| | |
|---|---|
| **1** | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br><br>**Presennol:** RJ (Cadeirydd) GW, EY; AR; DP;JOJ; LLMH; JAJ; EO; RY; IW<br><br>**Ymddiheuriadau:** DAW;TAJ<br><br>**Mynychu:** Cyng Ken Hughes; SWR<br><br>Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod gan nodi yr ymddiheuriadau uchod. |
| **2** | **Datgan Diddordeb**<br><br>Ni ddatganwyd unrhyw ddiddordeb |
| **3** | **Cofnodion 06.03.25**<br>Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 06.03.25 fel rhai cywir (AR/EY)<br><br>**Materion yn Codi**<br>**Cyflenwad Dwr yng Ngharmel –** cafwyd cyfarfod gyda Chris Onions swyddog Dwr Cymru ar 19.3.25 am 6pm gyda RJ; DAW; EY;RY a JOJ yn bresennol; Fe gylchredwyd ei gyflwyniad eisoes ar ebost i'r aelodau. Nododd bod sefyllfa Carmel ar frig ei restr waith ac mai'r nod yw datrys y broblem trwy adnewyddu cyfarpar fel bo'r gofyn ac mor fuan a bo modd gan obiethio cwblhau erbyn diwedd 2026. Cytunwyd i gadw cyswllt agos rhwng y swyddog a'r Clerc dros y misoedd nesaf. |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | Hefyd, anfon ebost yn holi am iawndal i drigolion gan gopio swyddfa'r AS i'r cais.<br><br>**Materion Priffyrdd –** cafwyd ymweliad safle ar 21.3.25 gyda RJ;DAW;Cyng JL a'r Clerc yn bresennol. Nodwyd y canlynol:-<br>• Sefyllfa Stryd Farmer dan oruchwyliaeth yr Adran a'r Heddlu<br>• Newid arwydd 'Limited Time' dros ffordd i Siop Elusen<br>• Awgrymu gwahodd Go Safe i'r pentref i edrych ar sefyllfa gor-yrru – Clerc i weithredu<br>• Cyferiwyd at Operation Snap yr Heddlu lle gellir adrodd am faterion gyrrau sydd wedi eu cofnodi ar 'dash cam' ceir.<br>• Edrych ar Community Plan for Parking ar gyfer sgwar – Iwan Cadwallader yw'r swyddog perthnasol<br>• Bydd uwch raddio golau uwchben croesfan stryd Fawr – gosod golau Belishia gradd uwch<br>• Cynnig i CC Llan brynu golau fflachio ar 3 mynediad i'r pentref a'r Adran eu gosod ar ein rhan. Cost 3 golau - £9K oddeutu. Clerc i holli am gymorth grant gan NRS Wylfa.<br>• Ystyried gosod 30mya trwy Bachau<br><br>Ychwanegu'r isod<br>• Cais eto i ystyried 30mya trwy Carmel<br>• Pryder am barcio tra bo adeiladu'r siop newydd wrth tafarn Twrcelyn<br><br>**Adolygu Camerau Diogelwch –** cytunwyd i'r Clerc holi JL am ddiweddariad ac hefyd holi CSYM os oes cefnogaeth ar gyfer diogelwch cymunedol ar gael er mwyn llunio manydeb gwaith teg.<br><br>**Prisiau Giat y Fynwent –** nodwyd bod 3ydd pris yn weddill. Cytunwyd os na fydd ymateb buan i fwrw mlaen gyda'r pris rhataf o'r ddau bris gwreiddiol gan eu bod o dan ofynion y Rheoliadau Cyllidol<br><br>Diweddarwyd y Cynllun Gweithredu i greu fersiwn – 06.02.25 |
| **4** | **Materion Trwy'r Gadair**<br><br>**Rhandiroedd**<br><br>Nododd EO ei bryder am sefyllfa gyfredol rheoli y Rhandiroedd. Nododd bod sawl swyddog gwreiddiol bellach wedi gadael y grwp rheoli a bod ganddo arian yn ei berchnogaeth i dalu mewn i'r banc er nad yw yn lofnodydd awdurdodedig y cyfrif. Nodwyd pryder am ffioedd heb eu talu a rheolau y cyfansoddiad ddim yn cael eu dilyn.<br><br>Yn dilyn trafodaeth cytunwyd yn unfrdyol bod angen i CC Llan gymryd rheolaeth o'r adnodd pwysig hwn – fel mae gyda CPD a Lawnt Fowlio. Cytunwyd i'r Clerc gysylltu a'r cyn Cadeirydd i holi am y sefyllfa ddiweddaraf ac yna, yn dilyn yr ymateb, drefnu Is- Bwyllgor Safloedd i drafod ymhellach. Cytunodd EO i symud o Is Bwyllgor Cyllid i'r Is-bwyllgor Safleoedd. |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| 5 | **Materion Cyllidol a Thaliadau**<br><br>**Taliadau ers 06.03.25**<br>• Cyflog Clerc – Mawrth = £676.09 yn cynnwys 3 x ZOOM<br>• Dwr Cymru – CPD = £45.74<br>• Dwr Cymru – Clwb Bowlio = £34.02<br>• Dwr Cymru – Fynwent Gyhoeddus = £13.49<br>• PWLB – benthyciad = £1483.70<br>• Nwy Prydain – trydan Goeden Dolig= £16.10<br>• Nwy Prydain – trydan Uned 2 = £634.20 Eglurodd y Clerc bod gor-daliad oherwydd darlleniad mesurydd anghywir. Wedi ei ad-dalu i'r cyfrif bellach<br>• Mark R0berts – cost blynyddol gwefan = £9.54<br><br>**Biliau cyfredol**<br>Costau Blynyddol Clerc – trydan, adnoddau, inc ayyb £550<br><br>**Cyfrif Cyfredol**: £2490.38<br><br>**Cyfrif Cadw:** £39122.50 |
| 6 | **Materion Cynllunio -** dim i law |
| 7. | **Adroddiad Cynghorwyr Sir –**<br>Cyfeiriodd KH at y trefniadau i lunio Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer Ynys Mon yn unig ac a fydd yn gyfredol hyd at 2039. Nododd bod Pwyllgor Polisi Cynllunio lleol wedi ei sefyldu i ymgymryd a'r gwaith a'i fod yn aelod o'r pwyllgor hwnnw. Mae peth pryder y gall polisiau cendlaethol amharu ar wybodaeth a gofynion lleol. Cyfeirodd at Gyngor Wrecsam, sy'n herio Llywodraeth Cymru yn yr Uchel Lys parthed gorddatblygu. |
| 8. | **Materion Safleoedd**<br><br>**Unedau Tan y Foel –** y broses o werthu y llain a'r ddau gompowd yn mynd rhagddo<br><br>**Safle'r Stesion** –. arwyddion gwybodaeth newydd wedi cyrraedd ac yn drawiadol. Clerc wedi diolch yn ffurfiol i Menter Môn eisoes am y gwaith trwy brosiect Balchder Bro.<br><br>Nododd JAJ bod angen twtio o gwmpas y safle a phaentio'r polion eto. Clerc i holi am gwmni glanhau<br><br>**Lawnt Fowlio** – cyfeiriodd y Clerc at sesiwn gynhaliwyd trwy glybiau Benllech a Llanfair. Bu i DAW a'r Clerc geisio sicrhau bod ystafell y Clwb yn lan a thaclus. Nodwyd bod gwaith pellach i wneud ar hyn – Clerc i ychwnaegu hyn at waith cwmni glanhau. |



Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| | **Clwb Peldroed –** cyfeiriodd y Clerc ar fil trydan o £3300.00 gan Scottish Power a'i fod bellach wedi ei nodi fel cwyn ffurfiol. Clerc i rannu'r wybodaeth gyda Swyddfa'r AS.<br><br>**Mynwentydd** – disgwyl 3ydd pris am giat newydd. Cytunwyd i fwrw mlaen gyda'r pris rhataf o'r ddau cychwynnol os na ddaw'r pris arall i law yn fuan.<br><br>**Cae Gofeb –** ebost trwy Alan Kennett am ei bryder gyda baw ci yn ardal agosaf i'r pentref o Cae Gofeb. Nodwyd bod rhywun wedi gosod fflagiau oren i nodi lle oedd baw ci, hyn yn anhysbys ar hyn o bryd. Cytunwyd i ail-osod arwyddion Dim Cwn yn yr ardal chwarae a chadw gorchwyl gwylio ar y sefyllfa. Gwerthfawrogir ymderchion pobol lleol i sicrhau ardal lân yma.<br><br>Cytunwyd i ychwanegu Rhandiroedd yn barhaol i'r eitem hwn.<br>• Clerc i holi os yw'r polisiau yswiriant cyfredol yn cynnwys trwsio ffensus – CPD a Chlwb Bowlio.<br>• Gamfa Goed ger Plas Gynnau – Clerc i holi Arwel Evans am drwshio.<br>• Pris i law am drwshio to 'Lynch Gate' yr Eglwys. Clerc i gysylltu a'r Eglwys yng Nghymru i holi am ganiatad a chefnogaeth ariannol i'r gwaith. |
| *Daeth y cyfarfod i ben am 8:40* | |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com